DATGANIAD I'R WASG
23 Mehefin 2009

YSGOLORIAETH BRYN TERFEL
URDD GOBAITH CYMRU 2009

Yn dilyn llwyddiant Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni bydd wyth o bobl ifanc mwyaf talentog Cymru yn cystadlu am wobr ac anrhydedd fawr Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru, nos Sadwrn, 10 Hydref am 7:00yh yn Theatr Weston, Canolfan Mileniwm Cymru.

Nod yr ysgoloriaeth yw meithrin a datblygu talentau pobl ifanc Cymru gan roi cyfle iddynt ddatblygu ymhellach yn eu maes. Ar y 5 a'r 6 o Fedi, bydd pob un o'r perfformwyr ifanc yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau ymhellach gan fynychu Dosbarthiadau Meistri yng Ngwersyll yr Urdd, Caerdydd.

Yn cystadlu am y wobr ariannol o £4,000 eleni fydd yr wyth ddaeth yn fuddugol yn y cystadlaethau o dan 25 oed:
Anni Llŷn o Sarn, Pwllheli (enillydd yr Unawd 19-25 oed)
Elliw Mai o Riwlas, Bangor (enillydd yr Unawd Cerdd Dant 19-25 oed)
Gwydion Rhys o Glunderwen, Sir Benfro (enillydd yr Unawd allan o Sioe Gerdd 19-25 oed)
Catrin Angharad Roberts o Lanbedrgoch, Ynys Môn (enillydd yr Alaw Werin 19-25 oed)
Hanna Hopwood o Langynnwr, Caerfyrddin (enillydd y Llefaru Unigol 19-25 oed)
Lisa Marged o Nantycaws, Caerfyrddin (enillydd y Cyflwyniad Theatrig Unigol 19-25 oed)
Jocelyn Freeman o Dyddewi, Sir Benfro (enillydd yr Unawd Offerynnol 19-25 oed)
Cerian Phillips o Fryn Iwan, Caerfyrddin (enillydd y Ddawns Werin Unigol 15-25 oed).

Yn ôl **Aled Siôn**, Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd a'r Celfyddydau: "Mae'r Ysgoloriaeth hon yn binacl gyrfa i lawer o enillwyr y gorffennol. Rydym yn hynod falch a diolchgar bod un o gewri'r byd opera, y baritôn o Bantglas, Bryn Terfel ei hun, yn cynnig ei enw a'i gefnogaeth i'r wobr a'r anrhydedd hon. Mae cryn edrych ymlaen, wedi holl fwrlwm yr

Eisteddfod, i weld enillwyr y categorïau unigol o dan 25 oed yn cystadlu unwaith yn rhagor ar gyfer y teitl hwn ym mis Hydref. Rydym yn dymuno bob llwyddiant i'r wyth."

Bydd panel o feirniaid yn ymgymryd â'r dasg anodd o ddyfarnu'r enillydd ar y noson.

Bydd S4C yn darlledu uchafbwyntiau'r Ysgoloriaeth a'r Dosbarthiadau Meistr.

Pris y tocynnau yw £10 a gellir eu harchebu o Ganolfan Mileniwm Cymru. Cysyllter â 08700 402000 neu ewch i wefan Canolfan Mileniwm Cymru www.wmc.org.uk

diwedd

Am fwy o fanylion, cysyllter â Manon Llwyd, 01970 613112, manonllwyd@urdd.org

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 51,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.